

Gwefan addysgol i godi ymwybyddiaeth a chynyddu ein dealltwriaeth o'r byd microbaidd ynom, arnom ac o'n cwmpas. Ar gael yn Saesneg, Cymraeg a Gaeleg.

Wedi'i ddlunio a'i ddatblygu gydag athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, mae Superbugs yn adnodd **rhad ac am ddim** y gall **disgyblion 5-16 oed ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu gartref.**


Ysbrydolwyd y prosiect gan ein cyflwyniad llwyddiannus o 'Archfygiau': Digwyddiad Siop Wyddoniaeth Dros Dro yng Nghanolfan Dewi Sant Caerdydd, a ddenodd tua 6,600 o ymwelwyr dros bythefnos yn ystod gwyliau'r haf 2019.

Mae cynnwys ac uchelgais sylfaenol Superbugs yn cefnogi pedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru yn llawn ac mae'n berthnasol i bob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad.

Mae'r wefan yn hawdd ei defnyddio ac mae ganddi amrywiaeth o nodweddion gan gynnwys cwisiau, PDFs y gellir eu lawrlwytho, animeiddiadau, fideos, straeon darluniadol, llinellau amser rhyngweithiol, gemau, a phrotocolau ar gyfer arbrofion cartref.

Cyflwynir yr holl ddeunyddiau heb gyfarwyddiadau, gan mai'r nod yw bod hyblygrwydd i addasu'r deunyddiau i anghenion unigol yr athrawon a'r disgyblion fel ei gilydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i ddod o hyd i wybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd gwyddoniaeth sydd ar y gweill yn y DU.





Pynciau

- Cyflwyniad i fywyd, esblygiad a bacteria
- Heintiau, cydfwytawyr a microbau yn yr amgylchedd
- Clefydau, gwrthfotigau ac ymwrthedd i wrthfotigau
- Sut mae brechlynnau'n gweithio

7 ffordd i ddefnyddio Superbugs

1. Gofynnwch i'r disgyblion archwilio cynnwys y wefan yn rhydd am gyfnod cyfyngedig o amser (15-30 mun) ac adrodd yn ôl i chi. Gallech chi aseinio hyn fel gwaith cartref gyda disgyblion yn cyflwyno 2-3 pwynt diddorol fel 'ffeithiau difyr' i'w cyfoedion yn y wers nesaf.
2. Defnyddiwch 'Y Gornel Ddarllen' i archwilio hanes darganfyddiadau gwyddonol a'r bobl y tu ôl i'r darganfyddiadau hynny, i gyfuno gwyddoniaeth a hanes neu wyddoniaeth a llythrennedd. Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen stori (15-30 mun) a'i thrafod mewn paru neu grwpiau.
3. Tywys y disgyblion drwy 'Y Llwybr Antur' (1-3 gwrs). Gallai aseiniad prosiect posibl fod i ofyn i ddisgyblion gyflwyno pwnc penodol fel poster, fel beth yw ymwrthedd i wrthfotigau neu sut mae brechlynnau'n gweithio?
4. Ar gyfer disgyblion iau, lawrlwythwch ac argraffwch ein tafenni lliwio bacteria.
5. Helpwch ddisgyblion i gynnal arbrawf o'n detholiad o brotocolau (1-3 gwrs), er enghraifft, paratoi eu platiau agar eu hunain a swabio eu hunain neu eu hamgylchedd. Gallai hyn gynnwys cyflwyniad o'r canfyddiadau i'r dosbarth a/neu rannu canlyniadau gyda'r tim Superbugs.
6. Caniatáu i ddisgyblion gael chwarae rhydd o'n detholiad o gemau, pob un ohonynt â chyd-destun gwyddonol ond ar yr un pryd nid oes angen dealltwriaeth ddofn o'r wyddoniaeth sylfaenol.
7. Fel rhan o ddiwrnod gyrfa neu wers wyddoniaeth, dangoswch y dudalen 'Bod yn Wyddonydd' i ddisgyblion archwilio rolau gwahanol pobl sy'n gweithio ym maes gwyddoniaeth a'r hyn a'u hysbrydolodd i ddewis eu gyrfaoedd. Ar gyfer digwyddiadau pwrpasol, gellir cynnwys sianel fyw lle mae disgyblion yn cwrrd â gwyddonwyr ar gyfer arddangosiadau byw, teithiau labordy a sesiynau holi ac ateb.



Cysylltu â ni

- ✉ superbugs@cardiff.ac.uk
- ➔ www.superbugs.online/meet-the-team
- 📍 @CUSuperbugs